



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol sy'n ofynnol gan adran 25D o
Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Ebrill 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ganllawiau statudol drafft sy'n ofynnol gan adran 25D o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (y Ddeddf).

Mae'r canllawiau'n ymwneud â'r dyletswyddau a osodir ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf; y ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio a'r dull cyfrifo.

Sut i ymateb Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 7 Ebrill 2017. Gallwch ymateb ar-lein, drwy e-bost neu'r post.

Ar-lein

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein yn: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/deddf-lefelau-staff-nyrsio>

E-bost

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Post

Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Nodwch unrhyw gyfeiriadau at y rhyngwrwyd, dogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ymgynghoreion e.e. cyfeiriad gwe'r ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad

Manylion cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Rhif ffôn:

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rhesymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol sy'n ofynnol gan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Beth yw'r prif faterion?

1. Dyma'r canllawiau statudol sy'n ofynnol gan adran 25D o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Bwriedir i'r canllawiau hyn gefnogi'r broses o weithredu adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf.
2. Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i sicrhau bod nyrsys yn cael digon o amser i ofalu am eu cleifion mewn ffordd sensitif, ac yn codeiddio arfer gorau presennol ar gyfer pennu lefelau staff nyrsio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gyfrifo a chynnal lefelau staffio mewn meysydd clinigol penodol.
3. Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae'r canllawiau statudol hyn yn cwmpasu dau faes;
 - i. Y ddyletswydd yn adran 25B i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio;
 - ii. Y dull cyfrifo a nodir yn adran 25C
4. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio eich barn ar ddarpar ganllawiau statudol sy'n ymwneud â threfniadau cynllunio'r gweithlu y gall Byrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG eu rhoi ar waith yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adrannau 25B a 25C.
5. Gall meysydd na chânt eu cwmpasu yn y canllawiau statudol hyn, fel cyflwyno adroddiadau a monitro, gael eu cwmpasu mewn canllawiau anstatudol yn y dyfodol.

Ble rydym nawr?

6. Mae'r Gorchymyn Cychwyn ar gyfer y Ddeddf yn nodi'r rhestr gychwyn ar gyfer dod ag elfennau gwahanol adran 1 i rym. Nodir y rhestr gychwyn yn y tabl isod.
7. Bydd y dyletswyddau a ystyrir yn y canllawiau hyn yn dod i rym ar 6 Ebrill 2018. Cyhoeddir y canllawiau yn 2017.

Amserlen Gychwyn ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)		
Dyddiad	Adran	Disgrifiad
3 Awst 2016	Adran 25D yn dod i rym	Mae Adran 25D yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad ar y dyletswyddau a nodir o dan adrannau 25B a 25C a chyhoeddi canllawiau arnynt.
6 Ebrill 2017	Adran 25A yn dod i rym	Mae Adran 25A yn gosod dyletswydd ar Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, wrth ystyried sawl nyrsydd ei hangen i fodloni pob gofyniad rhesymol, i ystyried pwysigrwydd sicrhau bod digon o nyrsys ar gael fel bod ganddynt ddigon o amser i ofalu am gleifion mewn ffordd sensitif.

Amserlen Gychwyn ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)

Dyddiad	Adran	Disgrifiad
6 Ebrill 2018	Adrannau 25B, C ac E yn dod i rym	<p>Mae Adran 25B yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio mewn lleoliadau penodol, sef wardiau meddygol a wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol ar hyn o bryd. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y lleoliadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt.</p> <p>Mae Adran 25C yn darparu'r dull ar gyfer gwneud y cyfrifiadau hyn.</p> <p>Mae Adran 25E yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG (y mae'r ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio o dan adran 25B yn berthnasol iddynt) i gyflwyno adroddiadau ar lefelau staff nyrsio. Mae'r Adran hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, i gyflwyno pob adroddiad a gyflwynwyd iddynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a pharatoi a chyhoeddi crynodeb o'r adroddiadau a gyflwynir.</p>

Adran 25B – Dyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio

8. Mae rhan gyntaf y canllawiau yn egluro'r ddyletswydd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- Sut y dylai'r person dynodedig gael ei ddewis a sut y dylai gyd-fynd â fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd lleol;
- Beth yw'r gofynion rhesymol y dylid eu bodloni;
- Sut y diffinnir lefel y staff nyrsio;
- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio;
- Sut y dylai cleifion gael eu hysbysu am lefel y staff nyrsio;
- Y diffiniadau o sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol.

Cwestiynau

1) Pa mor ddefnyddiol oedd y rhannau uchod o'r canllawiau yn eich barn chi?

2) Os credwch fod modd gwella'r rhannau hyn o'r canllawiau, dywedwch wrthym sut.

Adran 25C - Dull cyfrifo ar gyfer lefel y staff nyrsio

9. Mae ail ran y canllawiau yn egluro'r dull cyfrifo ar gyfer lefel y staff nyrsio, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- Trosolwg o'r modd y mae'r dull trionglog yn gweithio;
- Sut y gellir ystyried barn broffesiynol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio;
- Disgrifiad o'r hyn a olygir wrth adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Y dangosyddion y dylid eu defnyddio wrth ystyried y graddau y gwyddys fod lles cleifion yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs.

Cwestiynau

3) Pa mor ddefnyddiol oedd y rhannau uchod o'r canllawiau yn eich barn chi?

4) Os credwch fod modd gwella'r rhannau hyn o'r canllawiau, dywedwch wrthym sut.

5) Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg ac, yn benodol, ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;**
- ii) sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

6) Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllawiau er mwyn sicrhau:

- i) eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
- ii) nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Darpar ganllawiau ar gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol

10. Mae adran 25D(3) o'r Ddeddf yn nodi y gall canllawiau hefyd wneud darpariaeth ynghylch trefniadau cynllunio'r gweithlu y gall byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adrannau 25B a 25C.

11. Ar hyn o bryd, caiff canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer y GIG yng Nghymru eu cynnwys o dan Fframwaith Cynllunio'r GIG, sy'n rhoi canllawiau ar ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. (Darperir dolen i'r fframwaith isod.) Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth Addysg a Datblygu'r Gweithlu o dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi datblygu canllawiau ategol ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu, a gyhoeddwyd ar ei wefan. Os bydd yr ymgynghoriad hwn yn dangos bod angen canllawiau ychwanegol, cynhelir ymgynghoriad pellach, a all nodi hefyd opsiynau ar gyfer sut y byddai'r canllawiau hynny yn cyd-fynd â'r rheini sy'n bodoli eisoes.

<http://gov.wales/topics/health/nhswales/organisations/planning/?skip=1&lang=cy>

7) A fyddai canllawiau statudol ar gynllunio'r gweithlu yn fuddiol mewn perthynas â'r mater penodol hwn? Os 'byddent', rhowch fanylion.

8) Pa fath o wybodaeth y byddai'n fuddiol ei chynnwys mewn unrhyw ganllawiau ychwanegol ar gynllunio'r gweithlu, nad yw'n bodoli yn unman arall?

9) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Rwyf yn: <i>(dewiswch un o'r canlynol)</i>	Claf / Aelod o deulu'r claf neu ofalwr	
	Aelod o'r cyhoedd	
	Aelod o staff y GIG	
	Bwrdd Iechyd Lleol / Ymddiriedolaeth y GIG	
	Sefydliad sydd â diddordeb yn y gwasanaeth iechyd	
	Cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, grŵp gwirfoddoli, grŵp hunangymorth, cwmni cydfuddiannol, menter, grŵp crefyddol, sefydliad nid er elw)	
	Grŵp arall nas rhestrir uchod	

**1) Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 5 yn golygu defnyddiol iawn; pa mor ddefnyddiol oedd y rhannau canlynol o'r canllawiau yn eich barn chi?
(Ticiwch un opsiwn ar gyfer pob rhan)**

Rhan	1	2	3	4	5	Ddim yn Gwybod
Dull gweithredu cyffredinol						
Adran 25B						
Person dynodedig						
Gofynion rhesymol						
Lefel y staff nyrsio						
Camau rhesymol						
Hysbysu cleifion						
Sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol						

2) Os credwch fod modd gwella rhan o'r canllawiau, dywedwch wrthym am hyn isod. Efallai y byddwch am ystyried p'un a ellid ychwanegu neu ddileu unrhyw beth o'r canllawiau, neu p'un a ellid gwella'r geiriad er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n fwy clir.

Rhan	Gwelliant
Dull gweithredu cyffredinol	
Person dynodedig	
Camau rhesymol	
Lefel y staff nyrsio	
Camau rhesymol	
Hysbysu cleifion	
Sefyllfaoedd lle mae adran 25B yn berthnasol	

**3) Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 5 yn golygu defnyddiol iawn; pa mor ddefnyddiol oedd y rhannau canlynol o'r canllawiau yn eich barn chi?
(Ticiwch un opsiwn ar gyfer pob rhan)**

Rhan	1	2	3	4	5	Ddim yn Gwybod
Adran 25c						
Cyflwyniad i adran 25C						
Barn Broffesiynol						
Adnodd Cynllunio'r Gweithlu sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth						
Pan fo lles claf yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs						

4) Os credwch fod modd gwella rhan o'r canllawiau, dywedwch wrthym am hyn isod. Efallai y byddwch am ystyried p'un a ellid ychwanegu neu ddileu unrhyw beth o'r canllawiau, neu p'un a ellid gwella'r geiriad er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n fwy clir.

Rhan	Gwelliant
Cyflwyniad i adran 25C	
Barn Broffesiynol	
Adnodd Cynllunio'r Gweithlu sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth	
Pan fo lles claf yn arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs	

5) Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg ac, yn benodol, ar y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;**
- ii) sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

6) Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllawiau, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:

- i) eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;**
- ii) nad ydynt yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

7) A fyddai canllawiau statudol pellach ar gynllunio'r gweithlu yn fuddiol mewn perthynas â'r mater penodol hwn? Os 'byddent', rhowch fanylion.

8) Pa fath o wybodaeth y byddai'n fuddiol ei chynnwys mewn unrhyw ganllawiau ychwanegol ar gynllunio'r gweithlu, nad yw'n bodoli yn unman arall?

9) Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: